Nature on your doorstep

# Ffosilau planhigion Cymreig

315-300 miliwn o flynyddoedd yn ôl roedd Cymru'n drwch o fforestydd a chorsydd. Roedd rhedyn a chnwpfwsogl yn tyfu mor dal â choed, ac mae eu ffosilau i'w gweld yng nghreigiau Carbonifferaidd Uchaf y Cymoedd a rhannau o ogledd Cymru.

**Cadwch draw oddi wrth y clogwyni gan eu bod yn ansefydlog iawn a gall cerrig gwympo ar unrhyw adeg.**

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.Cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

AMGUEDDFA CYMRU

024

## Corsydd Carbonifferaidd

Mae enwau gwahanol i bob rhan o blanhigyn ffosil (coesyn, tail, conau ac ati).

Byddai planhigion Carbonifferaidd yn tyfu'n gyflym a thrwchus yn y corsydd oedd yn gorchuddio Cymru 315-300 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Wrth i afonydd orlifo, byddai twf planhigion yn oedi, a haenau o dywod ac yna mwd yn cael eu dyddodi cyn i'r fforestydd ail-dyfu.

Cafodd haenau trwchus o ffosilau planhigion eu cywasgu'n ffasau glo cyfoethog, ac mae nifer wedi cael eu cloddio am danwydd i'w losgi.

Mae ffosilau planhigion bregus i'w gweld weithiau mewn hen domenni glo. Maen nhw wedi'u cadw yn yr haenau tenau o fwd, ac mae'n rhaid eu holliti'n ofalus gyda chŷn a morthwyl.

**Peidiwch morthwylio'r clogwyni, na ffosilau mewn haenau o garreg solet.**



*Mariopteris*

Hadredyn a Rhedyn

Roedd y rhain yn edrych ychydig fel rhedyn modern, ac yn cario hadau mawr o'r enw *Trigonocarpus.*



Mae llawer mwy na allwn ni eu dangos yma.



*Alethopteris*



*Neuropteris*



*Calamites* (coesyn)



*Annularia* (dail)

Marchrawn

Mae marchrawn bach yn bodoli heddiw, ond roedd rhai o'r ffosilau hyn yn 20m o daldra. Cast o'r craidd gwag yw ffosil coesyn *Calamite* mewn gwirionedd.



*Sphenophyllum* – marchrawn ymgripiol



*Lepidodendron* (gydag olion dail siâp diamwnt)

Cnwpfwsogl

Ychydig gentimedrau o daldra yw cnwpfwsogl modern. Roedd y rhai hynafol yn 30m o daldra, ac yn creu fforestydd trwchus mewn corsydd. Roedden nhw'n cario conau mawr (*Lepidostrobus*) ar flaenau eu canghenau.



*Lepidodendron* (canghenau bach)



*Stigmaria* (gwreiddyn)



Cregyn deufalf dŵr croyw, sy'n dystiolaeth o gorsydd dŵr croyw.



Roedd y cranc pedol bach hwn yn byw yn y corsydd, gyda rhywogaethau sgorpion, miltroediaid, pryfed a chorynnod.



*Cordaites*
Un o'r coed conwydd cynharaf.